# Arwain 2024

Prifysgol Abertawe
Swansea University



Mwy yma - www.abertawe.ac.uk/susim/







## Canolfan arloesol yn rhoi'r dyfodol ar waith

Mae myfyrwyr meddygaeth a phob math o alwedigaethau gofal iechyd ym Mhrifysgol Abertawe yn cael cyfleoedd i fanteisio ar adnoddau a dulliau dysgu sydd ar flaen y gad yn fyd-eang.

Mewn canolfan arloesol a gafodd ei hagor y llynedd, mae'r myfyrwyr yn derbyn hyfforddiant mewn ystafelloedd sy'n defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i ail-greu ac efelychu sefyllfoedd yn y byd go-iawn.

Mae'r Ganolfan Ddysgu trwy Efelychu a Throchi, sy'n cael ei hadnabod fel SUSIM, yn un o'r canolfannau mwyaf blaenllaw o'i math yn y byd wrth dorri tir newydd mewn addysg gofal iechyd. Mae hefyd yn cynnig yr un ddarpariaeth arloesol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Un o nodweddion mwyaf trawiadol SUSIM yw'r dechnoleg waliau trochi sy'n gallu efelychu pob mathau o sefyllfaoedd o argyfwng, gydag effeithiau sy'n creu arogleuon yn ogystal â lluniau a sain a dymis uwch-dechnoleg sy'n ymateb i driniaeth gan ymarferwyr. Gwneir defnydd helaeth o'r waliau hyn mewn ystafell sy'n ail-greu theatr ysbyty, lle mae'r myfyrwyr yn cael profiad uniongyrchol o ddwysedd y gwaith a lle mae angen dysgu gwneud penderfyniadau cyflym. Yn yr un modd, defnyddir yr un dechnoleg mewn ystafell arall i efelychu ystafell fyw mewn tŷ ar gyfer ail-greu sefyllfaoedd pob math o ymweliadau



cartref gan unrhyw broffesiwn iechyd.

Mae amrywiol raglenni SUSIM yn cael eu datblygu gan dîm craidd o arbenigwyr efelychu yn y ganolfan, ac maen nhw hefyd yn cyfrannu at ddatblygu adnoddau efelychu i fyrddau iechyd a sefydliadau academaidd eraill yng Nghymru.

Mae SUSIM wedi'i leoli ar ddau safle, y prif adeilad ar gampws Singleton yn Abertawe a changen hefyd ym Mharc Dewi Sant, Caerfyrddin. Caiff ei waith ei oruchwylio gan Gyfarwyddwr Addysg Efelychu'r Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd, yr Athro Cyswllt Joanne Davies.

"Gweledigaeth rhaglenni a chyfleusterau SUSIM yw darparu'r safonau uchaf mewn addysg efelychu, arloesi ac ymchwil yn y maes allweddol hwn," meddai.

"Mae rhaglenni SUSIM yn cynnig cyfleoedd addysgol hynod realistig i fyfyrwyr gofal iechyd. Mae'n cynnig hyblygrwydd i addysgwyr addasu senarios at unrhyw ddiben, ac un o'r manteision mawr yw bod myfyrwyr o amrywiol ddisgyblaethau'n gallu astudio gyda'i gilydd."

Ymhlith y rhai sy'n gwerthfawrogi cyfleusterau SUSIM mae Sharon Jones, Hwylusydd Clinigol mewn Bydwreigiaeth, sy'n arwain ar addysg cyfrwng Cymraeg a hyfforddiant efelychu o fewn yr adran Bydwreigiaeth.

"Yma ym Mhrifysgol Abertawe rydym wir yn llunio dyfodol addysg gofal iechyd," meddai. "Mae'n gam pwysig ymlaen mewn addysg glinigol sy'n galluogi'n myfyrwyr i gael profiadau uniongyrchol o ymateb i senarios amrywiol ac heriol pan fyddant yn aml dan bwysau, cyn iddynt ymuno â'r proffesiwn. Mae'n gallu rhoi cipolwg ar ddatblygiadau a ddaw i'r proffesiwn yn y dyfodol hefyd.

Dywedodd yr Athro Gwenno Ffrancon, Dirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol Prifysgol Abertawe ar gyfer y Gymraeg, ei Threftadaeth a'i Diwylliant, fod y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn SUSIM yn ddatblygiad cyffrous i'r iaith.

"Mae galluogi myfyrwyr i fanteisio ar yr adnoddau arloesol hyn i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn hwb enfawr i addysg Gymraeg yma yn Abertawe," meddai. "Mae'n cadarnhau lle'r Gymraeg yn nhechnoleg y dyfodol a thrwy hynny'n agor y drws i gynyddu'r defnydd a wneir ohoni mewn amrywiaeth helaeth o feysydd."

# Hyrwyddo buddiannau'r Gymraeg, ein treftadaeth a'n diwylliant

Mae'r Athro Gwenno Ffrancon wedi cael ei phenodi'n Ddirprwy Is-Ganghellor Cynorthwyol ar gyfer y Gymraeg, ei Threftadaeth a'i Diwylliant i Brifysgol Abertawe.



Yn ogystal â pharhau yn ei swydd bresennol fel Cyfarwyddwr Academi Hywel Teifi, mae hi bellach yn aelod o Dîm Arweinyddiaeth ehangach y Brifysgol.

Mae ei chyfrifoldeb yn cynnwys hwyluso cyfleoedd i ddysgu ac addysgu'r Gymraeg, a hefyd cefnogi a hyrwyddo'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn ehangach fel rhan o genhadaeth ddinesig y Brifysgol.

Mae hi'n dod â chyfoeth o brofiad i'r swydd ar ôl arwain gweithgarwch Academi Hywel Teifi ers ei sefydlu yn 2011.

"Rwy'n hynod falch o'r cyfle hwn i arwain ar agenda a phortffolio'r Gymraeg, treftadaeth a diwylliant yma yn Abertawe," meddai.

"Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y degawd diwethaf yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg sy'n astudio, addysgu a gweithio yn y Brifysgol. Mae'r Gymraeg yn cael ei phrif ffrydio yng ngweithgarwch y sefydliad a diwylliant a threftadaeth ddwyieithog gyfoethog Cymru'n cael eu hyrwyddo a'u dathlu.

"Wrth reswm, mae gwaith pellach i'w wneud i ddyfnhau ac ehangu'r cyfleoedd hyn a sicrhau fod pawb sy'n rhan o gymuned y Brifysgol, yma yn Abertawe ond hefyd y tu hwnt, yn cael mynediad at y Gymraeg ac yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd a ddaw yn sgil hynny."

## Y Gymdeithas Ddysgedig

## Dyrchafu Athro Clinigol yn Gymrodor

Mae'r Athro Clinigol Angharad Davies yn un o bedwar academydd o Brifysgol Abertawe sydd wedi cael eu hethol yn Gymrodor Cymdeithas Ddysgedig Cymru.



Fel microbiolegydd clinigol academaidd, hi yw Arweinydd thema Amddiffyn ar y cwrs Meddygaeth i Raddedigion yn y Brifysgol gan gyfrannu at yr addysgu cyfrwng Cymraeg, ac mae'n ficrobiolegydd meddygol ymgynghorol anrhydeddus yn Uned Gyfeirio Cryptosporidium, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae ganddi ddiddordeb penodol mewn addysg a hyfforddiant ym maes ymwrthedd a stiwardiaeth gwrthficrobaidd ac mae hi'n cynnal cwrs addysg ryngbroffesiynol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd.

Bu'n Is-lywydd Dysgu gyda Choleg Brenhinol y Patholegwyr rhwng 2020 a 2023. Mae hi'n goruchwylio hyfforddiant clinigol ac arholiadau ôl-raddedig yn y DU ym mhob un o'r ddwy ar bymtheg o arbenigeddau patholeg, gan wneud cyfraniad mawr i waith y Coleg a'i harbenigedd clinigol.

Hi hefyd yw Arweinydd Arbenigedd Heintiau Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru ac mae'n aelod o Grŵp Arbenigedd Cenedlaethol ar Heintiau NIHR.

Y tri chymrodor newydd arall o Brifysgol Abertawe yw'r Athro Antonio Gil, Pennaeth yr Ysgol Awyrofod, Sifil, Drydanol a Mecanyddol; Dr Amira Guirguis, Athro Cysylltiol Fferylliaeth; a'r Athro Yvonne McDermott Rees, Athro yn y Gyfraith.

## Anrhydeddu arbenigwr ar newid hinsawdd

Mae daearyddwr ffisegol sydd hefyd yn ddarlledwr adnabyddus ar newid hinsawdd yn un o dri academydd o Brifysgol Abertawe sydd wedi ennill un o fedalau blynyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Mae ymchwil Yr Athro Siwan Davies yn cynnwys gwaith a gydnabyddir yn rhyngwladol ar ddadansoddi gronynnau lludw folcanaidd microsgopig.

Hi oedd enillydd Medal Frances Hoggan 2023, sy'n cydnabod cyfraniad menywod i ymchwil ym meysydd Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth.

"Braint a phleser o'r mwyaf yw ennill y fedal am fy ngwaith ymchwil i newid amgylcheddol blaenorol, sydd mor bwysig inni oll, o ystyried yr argyfwng hinsawdd," meddai'r Athro Davies.

"Rwy'n falch o fod wedi gallu mwynhau gyrfa academaidd ragorol yng Nghymru. Rwyf wedi bod yn hynod ffodus o fod wedi cael fy ysbrydoli a'm cefnogi gan fentoriaid, cydweithwyr ac aelodau tîm arbennig, o bob cwr o'r byd, ac rwyf wedi mwynhau ysbrydoli a chefnogi eraill yn fy nhro."



Mae medalau Cymdeithas Ddysgedig Cymru'n cael eu dyfarnu bob blwyddyn i ddathlu'r ymchwil rhagorol sy'n dod o Gymru. Y ddwy fedal arall a ddaeth i Brifysgol Abertawe oedd Medal Hugh Owen i'r Athro Tom Crick am ei waith ar ddiwygio addysg STEM, a Medal Dillwyn, sy'n dathlu cyfraniad ymchwilwyr gyrfa gynnar yng Nghymru, i'r Athro Leighton Evans, Athro Cyswllt Damcaniaeth Cyfryngau yn y Brifysgol.

## Cynghori'r Llywodraeth ar ddefnyddio'r Gymraeg mewn gofal iechyd

Mae Llywodraeth Cymru bellach yn manteisio ar arbenigedd un sydd wedi arloesi yn y Gymraeg mewn gofal iechyd ym Mhrifysgol Abertawe.

Cafodd Dr Alwena Morgan, Uwch-ddarlithydd Biofeddygaeth ac Arweinydd y Gymraeg yng Nghyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd yn y Brifysgol, ei phenodi'n aelod o fwrdd cynghori'r cynllun Mwy na Geiriau.

Nod y cynllun hwn gan y Llywodraeth yw cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'n cynnwys ymrwymiad i wneud gwahaniaeth i brofiad siaradwyr Cymraeg. Bydd Alwena ymhlith wyth o aelodau a fydd yn monitro ac yn craffu ar gynnydd cynllun Mwy na Geiriau.

"Mae'n wych gweld gwaith arloesol Alwena Morgan yn cael ei gydnabod gan y Llywodraeth fel hyn," meddai'r Athro Gwenno Ffrancon.

Mae Prifysgol Abertawe wedi elwa'n sylweddol yn ddiweddar o ddiwydrwydd a brwdfrydedd Alwena ar ran y Gymraeg o fewn meddygaeth a gofal iechyd, ac mae'n dda gwybod y bydd yn gallu dylanwadu ymhellach ac yn genedlaethol yn y maes pwysig hwn nawr."



# Llawenhau yn llwyddiant Alan Llwyd



**Un o uchafbwyntiau'r noson oedd bod yng nghwmni prifeirdd wrth i rai o gyfeillion Alan ei gyfarch gyda cherddi.**

Mae cydweithwyr ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn llawenhau yn llwyddiant y Prifardd Alan Llwyd yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023.

O ganlyniad i lacio rheol yr Eisteddfod am ennill ddwy waith yn unig, Alan yw'r bardd cyntaf i ennill Cadair Eisteddfod Genedlaethol am y trydydd tro.

I ddathlu llwyddiant yr Athro yn Adran y Gymraeg yn y Brifysgol, cynhaliwyd noson arbennig i'w gyfarch yng nghapel Mynyddbach, Tir Deunaw gyda gwahoddiad agored i'r gymuned ymuno.

Cafodd y noson o eitemau cerddorol a chyflwyniadau barddonol ei llywio gan un o wynebau mwyaf cyfarwydd S4C, Siân Thomas, sydd hefyd yn gyn-fyfyrwraig Adran y Gymraeg, Prifysgol Abertawe.

Ymhlith uchafbwyntiau'r noson roedd prifeirdd sy'n gyfeillion i Alan, gan gynnwys Tudur Hallam, Christine James, Robat Powell ac Aneirin Karadog yn ei gyfarch â cherddi a gyfansoddwyd ganddynt yn benodol ar gyfer y noson honno.



"Cafwyd noson hynod o lwyddiannus i ddathlu camp hanesyddol bardd mwyaf Cymru sydd hefyd yn ysgolhaig ac yn aelod gwerthfawr o Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe," meddai'r Athro Gwynedd Parry, Pennaeth Adran y Gymraeg. "Diolch i Academi Hywel Teifi am drefnu achlysur oedd yn tynnu'r Brifysgol a'r gymuned ynghyd ac i'r holl gyfranwyr am berfformiadau a theyrngedau cofiadwy."

Ychwanegodd Syr Roderick Evans, Cadeirydd Academi Hywel Teifi a Dirprwy Ganghellor Prifysgol Abertawe: "Roedd hi'n fraint cael bod yn rhan o noson oedd yn ein hatgoffa o gyfoeth rhyfeddol ein cymdeithas a'n cenedl a rhoi cyfle i'r gymuned gyfleu eu hedmygedd o Alan a'i gyfraniad enfawr at drysorau ein llên. Wrth wrando ar driniaeth ddeheuig Robert Rhys o gerdd Alan, a cherddi cyfarch y prifeirdd ar y noson, mae'n amlwg bod cyfoeth o ddoniau wedi bod, ac yn parhau i fod, ynghlwm ag Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe."

# Y Brifysgol yn cydnabod cyfraniad rhai o sêr ei dalgylch

Mae un o sêr amlycaf y byd roc Cymraeg ymhlith y rhai diweddaraf i gael eu hanrhydeddu gan Brifysgol Abertawe yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Cafodd **Huw Chiswell** ei urddo'n Gymrawd er Anrhydedd yn ystod seremoni Haf y Brifysgol.

Fel un a gafodd ei fagu ym mhen uchaf Cwm Tawe ym mhentref Godre'r Graig, enillodd wobr Cân i Gymru yn 23 oed am ei gân enwog Y Cwm. Arweiniodd ei fuddugoliaeth at gytundeb i recordio albwm o ganeuon, y gyntaf o'r chwech oedd i ddilyn. Mae nifer o'r caneuon cynnar hynny bellach wedi'u trefnu ar gyfer corau a phartïon cerdd amrywiol ac yn cael eu canu ledled Cymru hyd heddiw.









Tua'r un cyfnod, gwahoddwyd Huw i gyfansoddi cân arbennig i gefnogi'r ymateb elusennol i newyn trychinebus Ethiopia yr 80au. Cyfrannodd y gân 'Dwylo Dros y Môr' lawer i'r ymgyrch a hi hefyd oedd y gân Gymraeg gyntaf i gyrraedd Siart Senglau y Deyrnas Unedig.

Mae'n parhau i berfformio yn gyson ar hyd a lled Cymru gan weithio hefyd fel cyfarwyddwr dramau, a'i gynhyrchiad diweddaraf, *Dal Y Mellt* (Rough Cut) gyda Vox Pictures yw'r gyfres Gymraeg gyntaf i gael ei phrynu gan y cwmni ffrydio rhyngwladol, Netflix.

Mae'r clod a gafodd gan y Brifysgol yn dilyn anrhydeddau a gyflwynwyd yn gynharach yn y flwyddyn i bencampwyr eraill sydd wedi disgleirio yn eu hamrywiol feysydd.

Yn eu plith roedd y brodyr **Alan ac Eifion Jones**, y ddau gricedwr enwog a gafodd eu magu yn Felindre ar gyrion gogleddol Abertawe. Cafodd y ddau yrfaoedd nodedig, gan gyfrannu llawer at lwyddiant tîm Morgannwg hyd nes iddyn nhw ymddeol yn 1983.


Actores a hyrwyddwr actio amatur lleol yw **Menna Trussler**, a gafodd radd er anrhydedd i gydnabod ei chyfraniadau rhagorol i'r celfyddydau.

Fe'i ganwyd i deulu glofaol yn Fforestfach yn 1935, ac mae ei stori yn un o wydnwch, angerdd ac o ddilyn ei breuddwydion. Dros y blynyddoedd mae ei gyrfa wedi ymestyn dros feysydd theatr cwmni, sioeau cerdd, pantomeimiau, ac yn y pen draw ar y teledu ac mewn ffilmiau. Mae ei hymddangosiadau nodedig yn cynnwys rolau yn *That Uncertain Feeling, The District Nurse, Torchwood, Stella, Casualty*, a *Little Britain*.

Un arall a fagwyd yn yr ardal ac sydd wedi disgleirio ym myd teledu yw **Euros Lyn**, a enillodd radd doethuriaeth llên er anrhydedd. Mae'n adnabyddus fel cyfarwyddwr rhaglenni teledu a ffilmiau sydd wedi gweithio ar *Doctor Who*, *Happy Valley*, *Black Mirror*, *Broadchurch*, a *Heartstopper*.

Ar ôl graddio gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn Drama o Brifysgol Manceinion, bu Euros Lyn yn gyfarwyddwr cynorthwyol ar raglenni Cymraeg ar gyfer S4C. Yn ddiweddarach, cyfarwyddodd 12 o benodau o *Dr Who* rhwng 2005 a 2010, gan ennill gwobr BAFTA Cymru am y Cyfarwyddwr Gorau a Gwobr Hugo. Ef hefyd oedd cyfarwyddwr *Y Llyfrgell* ac yn 2015 derbyniodd Wobr Siân Phillips gan BAFTA am gyfraniad arbennig i fyd ffilm a theledu.

Cyn-fyfyrwraig uchel ei pharch o Brifysgol Abertawe yw **Gwyneth Hayward**, a gafodd ddyfarniad er anrhydedd i gydnabod ei chyfraniadau i fyd addysg ac ymdrechion elusennol.



Ar ôl graddio mewn hanes yn y Brifysgol yn 1969, dilynodd yrfa ddisglair mewn addysg mewn ysgolion yn ne-orllewin Lloegr a'r Dwyrain Canol.

Ers dychwelyd i Gymru yn 2000 mae hi wedi bod yn weithgar mewn meysydd eraill gan gynnwys Ymddiriedolaeth Adfer Aberglasne ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ers 2010.

# Canolfan y Celfyddydau Taliesin yn dathlu'r deugain

Cafwyd noson o ddathlu yng Nghanolfan y Celfyddydau Taliesin yn ddiweddar i nodi 40 mlynedd ers iddi agor ei drysau am y tro cyntaf.


Dros y pedwar degawd diwethaf, mae'r ganolfan wedi bod yn rhan annatod o fywyd bob dydd Prifysgol Abertawe, ac wedi gweithredu fel pont rhwng y Brifysgol a'r gymuned. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae wedi cyflwyno miloedd o ddigwyddiadau byw a ffilmiau gyda chefnogaeth cenedlaethau o aelodau ymroddedig o staff.




"Mae'r rhaglen gynhwysfawr a chyfoethog hon wedi gwneud cyfraniad amhrisiadwy at greadigrwydd y ddinas," meddai Is-Ganghellor y Brifysgol, yr Athro Paul Boyle. "Mae wedi denu cynulleidfa o ddegau o filoedd o bob rhan o Fae Abertawe a thu hwnt, ac wedi cynnig cyfleoedd di-rif i fyfyrwyr ddatblygu fel dinasyddion diwylliannol trwy wylio a gwneud – boed hynny fel aelodau o gynulleidfaoedd neu berfformwyr."

Roedd y noson ddathlu yn cyflwyno celfyddydau cymunedol llawr gwlad yn Abertawe, gan gynnwys arddangos celf a chrefft weledol, dangosiadau ffilm, cerddoriaeth fyw a gair llafar. Cafodd y cyfan ei gynhyrchu a'i gyflwyno gan rai a gymerodd ran yn rhaglen ddiweddaraf y Ganolfan, Celfyddydau Ar Draws y Ddinas. Ariannwyd y cynllun gan gronfa prosiectau Cyngor y Celfyddydau Cymru.

Roedd yr achlysur yn gyfle hefyd i edrych yn ôl ar rai o uchafbwyntiau'r 40 mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys y ddarlith agoriadol gan yr Athro Stephen Hawking yn 1984, a sgyrsiau gan Archesgob Caergaint ar y pryd, Rowan Williams, y comedïwr Rob Brydon, ac Anne Boden, sylfaenydd Starling Bank ac un o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol.



Un arall o lwyddiannau mawr y Ganolfan oedd ei gweithgarwch gydag Adain Avion, yr awyren DC9 enfawr a ddefnyddiwyd fel gofod celf fel rhan o brosiect Olympiad Diwylliannol Gemau Llundain. Bu'r Adain, a gychwynnodd ei thaith drwy Gymru yn Abertawe, cyn ymweld â lleoliadau eraill gan gynnwys Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg, yn fwrlwm o weithgareddau gan gynnwys Dyddiau Dawns, gŵyl flynyddol sy'n cael ei

# Chwarter canrif o arddangos trysorau'r Aifft

Yn ogystal â Chanolfan y Celfyddydau mae adeilad Taliesin yn gartref i amgueddfa sydd hefyd yn dathlu carreg filltir bwysig yn ei hanes.

Mae'r Ganolfan Eifftaidd wedi bod yn arddangos rhai o drysorau'r Aifft ers chwarter canrif bellach. Daw'r rhan fwyaf o'i chreiriau o gasgliad a arferai gael ei gadw yn Adran Clasuron a Hanes Hynafol Prifysgol Abertawe, dan ofal yr Eifftolegwyr, Kate Bosse-Griffiths a'i gŵr yr Athro J. Gwyn Griffiths.

Sybil Crouch, rheolwr Canolfan y Celfyddydau Taliesin ar y pryd, a gafodd y syniad y gellid gwneud defnydd o'r casgliad fel y gallai'r cyhoedd ei weld.

Arweiniodd hyn at agor y Ganolfan Eifftaidd yno ym mis Medi 1998. Yn ogystal â bod yn amgueddfa sydd â chasgliad o bron i 6,000 o henebion Eifftaidd, mae hefyd yn rhoi pwyslais cryf ar addysg, cydweithredu a gwirfoddoli, gan ysbrydoli myfyrwyr, ymwelwyr a gwirfoddolwyr.

Ers hynny, mae'r Ganolfan Eifftaidd wedi helpu miloedd o bobl i gwrdd â ffrindiau newydd, dysgu sgiliau newydd, dechrau llwybr gyrfa a helpu i gynnal unig amgueddfa Eifftaidd Cymru.



Mae Rheolwr yr Amgueddfa, Wendy Goodridge, yn falch mai hi oedd y gwirfoddolwr cyntaf erioed.

"Gan fy mod i wedi bod yn yr amgueddfa ers 1997, cyn i'r drysau agor yn swyddogol, rwyf wedi cael y fraint o weld dau ddegawd a hanner o ymroddiad, sydd wedi helpu i wneud y Ganolfan Eifftaidd y sefydliad nodedig y mae heddiw," meddai.

"Mae ymroddiad ein gwirfoddolwyr gwerthfawr wedi bod yn hanfodol i'w llwyddiant ac yn awr, wrth i ni ddathlu'r garreg filltir hon, rydym yn hynod falch o anrhydeddu'r dreftadaeth maent wedi helpu i'w chreu."

Dechreuodd Dr Ken Griffin ei amser yn yr amgueddfa fel gwirfoddolwr hefyd yn 2000 fel myfyriwr Eifftoleg yn ei flwyddyn



gyntaf. Nawr, 23 mlynedd yn ddiweddarach, ef yw'r curadur.


"Diolch i ymrwymiad ac angerdd ein gwirfoddolwyr, rydym yn gallu cynnig cyfle i'r cyhoedd ddysgu am ddiwylliant a phobl yr Hen Aifft," meddai.

Ar hyn o bryd, mae'r amgueddfa'n arddangos casgliad o fwy na 700 o eitemau Eifftaidd sydd wedi'u benthyca i'r Ganolfan Eifftaidd gan Amgueddfeydd Harrogate, am dair blynedd.

Mae'r arddangosfa *Causing Their Names to Live* yn cynnwys coflechau, cerfluniau, shabtis, conau angladdol,

chynhyrchu gan Taliesin.

"Wrth inni gychwyn ar ein taith tuag at y 40 mlynedd nesaf mae ein cenhadaeth mor bwysig ag erioed," meddai Rhian Jones, Rheolwr Lleoliadau a Gweithrediadau Canolfan y Celfyddydau Taliesin. "Ein nod yw grymuso ein cymunedau i ffynnu trwy greadigrwydd – a chyfranogi a phrofi bywyd diwylliannol ein prifysgol, dinas, rhanbarth a chenedl."







jar canopig a sgarabau, sy'n galluogi ymwelwyr i gysylltu â hanes cyfoethog yr Hen Aifft.



# Bwrlwm ac Egni'r GwyddonLe

Daeth miloedd o ymwelwyr i stondin y GwyddonLe ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Maldwyn, wrth i'r fenter ar y cyd rhwng Prifysgol Abertawe a'r Urdd brofi'n llwyddiant mawr eto eleni.

Thema'r GwyddonLe eleni oedd Egni a bu gwyddonwyr Abertawe yn cynnal amrywiaeth o arddangosiadau gwyddonol a sioeau llwyfan i ysbrydoli gwyddonwyr ifanc a diddanu'r cynulleidfaoedd. Roedd gan yr Ysgol Feddygaeth bob math o weithgareddau yn cynnwys yr Ysbyty Tedi, astudio celloedd gwaed a dysgu sut i ddefnyddio diffibriliwr. Dychwelodd Technocamps gyda robot oedd yn gallu datrys ciwb Rubik a chwrs golff mini roboteg. Un o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd oedd Her Stroop yr Ysgol Seicoleg, oedd dipyn yn anoddach na'r disgwyl i bawb!














Yno hefyd roedd Tîm Realiti Rhithwir y Brifysgol, a'r stondin Dewiniaeth Ddigidol gan yr Adran Gyfryngau a Chyfathrebu lle'r oedd modd i'r ymwelwyr ychydig yn hŷn hel atgofion yn chwarae hen gemau cyfrifiadurol *Chuckie Egg*! Ymysg partneriaid allanol a gymerodd ran yn y gweithgareddau roedd E-Chwaraeon Cymru, a chafwyd gweithdai arbennig hefyd gyda'r Academi Gofod Cenedlaethol.

Ymysg yr ymwelwyr roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg, Jeremy Miles AS, yn ogystal ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Eluned Morgan AS.

Dywedodd Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor y Brifysgol fod y GwyddonLe wedi creu argraff fawr arno: "Mae gweld y GwyddonLe dan ei sang yn llawn bwrlwm a chyffro yn brofiad arbennig," meddai. "Hoffwn hefyd ganmol ymroddiad gwahanol adrannau Prifysgol Abertawe i arddangos ein hymchwil a'n harbenigedd. Rydym yn hynod falch o'n partneriaeth agos gydag Eisteddfod yr Urdd ac yn edrych ymlaen yn fawr at groesawu'r Ŵyl i'n hardal ni yn 2025."

# Dadlau brwd ynghylch un o byncia mawr ein hoes

'Dyfodol Di-garbon i Gymru: Breuddwyd neu Realiti?' oedd testun cystadleuaeth ddadlau a rhesymu Her Sefydliad Morgan ar faes Eisteddfod yr Urdd eleni.

Ers chwe blynedd bellach, mae'r gystadleuaeth hon, er cof am y diweddar Rhodri Morgan, Prif Weinidog Cymru, wedi bod yn un o brif ddigwyddiadau y Gwyddonle.

Caiff y gystadleuaeth, sydd ar gyfer disgyblion ysgol Blwyddyn 10 i 13, ei noddi gan Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan, canolfan ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe sy'n chwilio am atebion arloesol i wella'n economi a'n cymdeithas.

Cafodd y testun ei osod gan yr Athro Trystan Watson o Ysgol Peirianneg Prifysgol Abertawe, ac ef hefyd oedd yn beirniadu'r gystadleuaeth gyda'i gyd-feirniad Heledd Siôn, newyddiadurwraig gyda thîm newyddion BBC Radio Cymru.

Daeth tair ysgol – Ysgol Gyfun Ystalyfera, Ysgol Gwent Is Coed ac Ysgol Gyfun Bryn Tawe – i gystadlu yn erbyn ei gilydd gyda dau gynrychiolydd o bob ysgol yn cyflwyno dau safbwynt cyferbyniol ar y pwnc.

Dywedodd y beirniaid fod y chwe chystadleuydd wedi dangos doniau rhesymu a dadlau gwych ac wedi ateb eu cwestiynau yn fedrus ac yn hyderus. Er mai trwch blewyn yn unig oedd rhwng pob un ohonynt, merched Ysgol Gyfun Ystalyfera aeth â hi gan ennill gwobr o £500 i'r ysgol, gydag Amelia






Sivertson yn ennill y Siaradwr Gorau yn Erbyn y Pwnc ac Esther Harper y Siaradwr Gorau o Blaid. Esther hefyd oedd Enillydd yr Her a deiliad tlws Her Sefydliad Morgan 2024.

"Pleser oedd bod yn rhan o gystadleuaeth Her Sefydliad Morgan eleni," meddai'r Athro Trystan Watson. "Roedd y safon mor uchel ac angerdd y cystadleuwyr am y pwnc yn amlwg, a doedd hi ddim yn benderfyniad hawdd i ni fel beirniaid!

"Roedd pob un o'r bobl ifanc wedi cyflwyno'u dadleuon yn ddeallus ac yn glir ac wedi ymchwilio i'r testun a throsglwyddo'r wybodaeth mewn ffordd huawdl tu hwnt. Cafodd Heledd a fi ein syfrdanu mewn gwirionedd gan y chwe chystadleuydd. Mae dyfodol disglair o flaen pob un ohonynt."

# Gwobrwyo tiwtor Cymraeg sy'n ysbrydoli ei dysgwyr



Mae tiwtor sy'n dysgu Cymraeg i oedolion ym Mhrifysgol Abertawe wedi ennill gwobr genedlaethol a chlod uchel am y ffordd y mae'n ysbrydoli ei dysgwyr.

Dros y pum mlynedd ddiwethaf mae Non Williams wedi bod yn aelod gwerthfawr o dîm Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe, ac mae wedi tywys cannoedd o ddysgwyr o ddechreuwyr i lefelau uwch gan feithrin ac annog eu cariad at yr iaith.

Cydnabod gwaith gwerthfawr tiwtoriaid a mentoriaid wrth gefnogi dysgu gydol oes ledled Cymru yw nod y gwobrau 'Ysbrydoli!' blynyddol i diwtoriaid, a Non oedd enillydd y categori Cymraeg i Oedolion.

Cafodd Non ei chanmol am ddatblygu amgylchedd dysgu cyfeillgar, cefnogol a phleserus i'w dysgwyr, gan annog ei myfyrwyr i groesawu camgymeriadau fel cyfleoedd dysgu ac i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Mae hi hefyd yn llwyddo i greu ymdeimlad o gymuned a gwaith tîm yn ei dosbarthiadau, lle mae ei myfyrwyr yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi drwy gydol eu taith iaith.

Dywed Non fod y wobr yn golygu llawer iddi.

"Mae tiwtora yn hynod werth chweil, a'r rhan fwyaf boddhaus yw gweithio gyda'r dysgwyr eu hunain," meddai. "Er bod dysgu iaith yn gofyn am ymdrech unigol, mae hefyd yn daith gydweithredol. Trwy waith mewn parau, gweithgareddau grŵp, a thrafodaethau dosbarth, mae ymdeimlad cryf o gymuned yn datblygu, gan atgoffa myfyrwyr nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain ar y llwybr hwn.

"Mae rhoi'r cyfle a'r hyder i ddysgwyr ddefnyddio eu sgiliau iaith yn bwysig iawn, ac rwy'n eu hannog i wneud hynny ym mha bynnag ffordd maen nhw'n dymuno. Mae'n gwneud i mi deimlo'n falch ac mae'n golygu cymaint i mi glywed am unrhyw lwyddiant personol gan ddysgwyr waeth pa mor fawr neu fach yw'r digwyddiad."

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
**Ardal Bae Abertawe**
**Swansea Bay Region**

## Cyrraedd rownd derfynol Dysgwr y Flwyddyn

Mae un arall o diwtoriaid Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe yn un o bedwar sydd wedi cyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Bydd Elinor Staniforth yn cael gwybod pa un o'r pedwar sy'n fuddugol yn Seremoni Dysgwr y Flwyddyn yn y Pafiliwn Mawr ddydd Mercher, 7 Awst ym Mhontypridd.

Bedair blynedd ar ôl dechrau dysgu Cymraeg ei hun, mae Elinor bellach yn ysbrydoli eraill i ddysgu'r iaith fel tiwtor Cymraeg i oedolion.

Cafodd ei magu mewn cartref di-Gymraeg yng Nghaerdydd, a dychwelodd i Gymru ar ôl graddio mewn celfyddyd gain yn Rhydychen yn 2019.

"Roeddwn i'n dechrau colli Cymru yn fawr, yn sylweddoli pa mor sbesial yw hi ac yn hiraethu am fynd gartref," meddai.

"Roedd y rhan fwyaf o fy ffrindiau wedi gadael y ddinas erbyn hynny felly roeddwn i'n chwilio am ffordd o gwrdd â mwy o bobl a helpu i gael swydd yn y celfyddydau – dw i'n lwcus nawr i ddweud fy mod i wedi ffeindio'r ddau drwy ddysgu'r iaith."

Dywed fod dysgu Cymraeg wedi newid ei bywyd ac wedi rhoi llawer o hyder iddi.

"Mae dysgu Cymraeg wedi helpu fi i ddod lot fwy hyderus a phoeni llai," meddai. "Mae rhaid i ti wneud lot o gamgymeriadau a chwerthin ar ben dy hun i lwyddo i ddysgu iaith. Felly nawr, beth bynnag dw i'n wneud, mae llai o ots gyda fi os ydw i'n swnio'n dwp, dw i'n gallu joio'r foment."

## Canmol cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth wirfoddoli

Student Volunteering Swansea
Discovery
Gwirfoddoli Myfyrwyr Abertawe

Mae elusen gwirfoddoli myfyrwyr Abertawe wedi ennill clod swyddogol am ei hymroddiad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Dyfarnwyd cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg i'r elusen, Discovery, gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ddiweddar.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r elusen wedi dangos ei hymrwymiad i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i diwylliant drwy amryw o fentrau. Mae'r rhain yn cynnwys darparu cyfleoedd gwirfoddoli untro yn y Gymraeg, trefnu Clwb Cymraeg, a chofrestru dros 100 o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ar ei llwyfan gwirfoddoli. Ar hyn o bryd, mae 80% o'i staff wrthi'n dysgu Cymraeg.

Wrth edrych i'r dyfodol, dywedodd Eleanor Norton, Cyfarwyddwr Discovery, fod y sefydliad wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth Gymraeg. "Nod Discovery yw gwella amlygrwydd y



Gymraeg a'r defnydd ohoni, gan alluogi staff, gwirfoddolwyr, cefnogwyr a defnyddwyr i ryngweithio'n gyfforddus yn y naill iaith neu'r llall," meddai. "Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan hollbwysig o dreftadaeth a hunaniaeth ein gwlad."

Ymysg gwirfoddolwyr mwyaf brwd yr elusen mae Priya Dodiya, enillydd Gwobr Merêd y Coleg Cymraeg, am ei chyfraniad fel myfyriwr i fywyd a diwylliant Cymraeg yn y brifysgol (gweler tudalen 7).

"Trwy wirfoddoli, rydw i wedi magu hyder wrth siarad Cymraeg ac mae gen i ymdeimlad cryfach o berthyn i'r gymuned," meddai. "Mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb sy'n dymuno ei dysgu a'i siarad, a dwi'n falch o fod yn rhan o hynny."

## Ysgoloriaeth Goffa Hywel Teifi i gefnogi'r Gymraeg mewn gofal iechyd

Pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd yw maes ymchwil enillydd diweddaraf Ysgoloriaeth Goffa Hywel Teifi.

Mae Maisie Edwards, sy'n hanu o Gasnewydd ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gyfun Gwynllyw, eisoes wedi graddio â dosbarth cyntaf mewn BSc Iechyd Poblogaethau a'r Gwyddorau Meddygol ac wedi cwblhau cwrs meistr trwy ymchwil mewn Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd.

"Rydw i'n hynod ddiolchgar am y fraint a'r anrhydedd aruthrol o dderbyn Ysgoloriaeth Goffa Hywel Teifi," meddai Maisie. "Mae fy ymchwil i'n archwilio pwysigrwydd y Gymraeg wrth feithrin cyfathrebu effeithiol rhwng darparwr gofal a chlaf a gwell canlyniadau iechyd o fewn darpariaeth gofal iechyd sylfaenol."

Manteisiodd Maisie yn llawn ar bob cyfle i astudio trwy'r Gymraeg oedd ar gael iddi fel myfyrwraig ym Mhrifysgol Abertawe ac i brofi cyfleoedd allgyrsiol a bywyd cymdeithasol llawn yn yr iaith. Roedd y profiadau hyn yn cynnwys bod yn aelod o Aelwyd yr Elyrch, y GymGym, yn Llysgennad i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a chael profiad gwaith gyda'r Academi.

"Fe ges i fy ysbrydoli gan gyfraniad ac ymrwymiad di-baid Yr Athro Hywel Teifi Edwards at iaith, dysg a diwylliant Cymru a theimlaf yn angerddol i barhau i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn fy maes ymchwil. Mae Prifysgol Abertawe a'r gymuned Gymraeg wedi chwarae rôl fawr yn fy mywyd academaidd ac edrychaf ymlaen at eu cynrychioli gyda chefnogaeth a chymorth yr Ysgoloriaeth."

Mae Ysgoloriaeth Goffa Hywel Teifi yn derbyn cyfraniad ariannol gan gwmni cyfryngau Tinopolis Cymru ynghyd â chefnogwyr a chyfeillion Academi Hywel Teifi, Prifysgol Abertawe, a'i nod yw cefnogi myfyrwyr ôl-radd cyfrwng Cymraeg sydd am astudio maes sy'n ymwneud â chyfraniad Hywel Teifi at ddysg a diwylliant Cymru.



COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

# Llysgenhadon 2024 y Coleg Cymraeg










## Pedair llysgennad newydd yn ymuno â'r tîm

Fel y llynedd, merched yw pob un o lysgenhadon y Coleg Cymraeg yn Abertawe eto eleni, gyda phedair o rai newydd wedi ymuno â phedair sy'n parhau am flwyddyn arall.

Un o'r rhai sy'n ymuno â'r tîm am y tro cyntaf yw **Sara Niamh O'Connor**, myfyrwraig bydwreigiaeth sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Bro Preseli yn Sir Benfro. Dywed ei bod yn edrych ymlaen at y cyfle i ddangos y cyfleoedd sydd ar gael yn y Gymraeg. Mae'n ymuno â dwy arall sy'n parhau fel llysgenhadon israddedig. Cymraeg yw pwnc y ddwy - **Cara Medi Walters**, a gafodd ei haddysg yn Ysgol Maes y Gwendraeth yn Sir Gaerfyrddin, a **Daisy Gwyneth Bendle**, sy'n dod o Abertawe ac a aeth i Ysgol Gyfun Treforys. Fel rhywun o gefndir di-Gymraeg, mae Daisy yn teimlo ei bod yn bwysig annog mwy o bobl o gefndiroedd di-Gymraeg i ddefnyddio'r iaith ac astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Myfyrwyr ôl-raddedig yw'r pump arall, ac yn eu plith mae enillydd Ysgoloriaeth Goffa Hywel Teifi, sef **Maisie Edwards** o Gasnewydd, sy'n astudio ar gyfer gradd uwch PhD mewn Astudiaethau Meddygol a Gofal Iechyd.

Un arall sy'n cychwyn fel llysgennad am y tro cyntaf yw **Siwan Mai Davies**, sy'n dod o Nantgaredig ac yn gyn-ddisgybl o Ysgol Bro Myrddin. Mae'n dilyn cwrs Ymarfer Cyfreithiol Proffesiynol yn y brifysgol.

Y llysgennad newydd arall yw **Sally Ann Nicholls**, sy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Llanhari. Mae'n gwneud doethuriaeth mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol gan edrych ar y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar, ac yn benodol ar gaffaeliad iaith mewn cylchoedd meithrin.

Mae'r ddwy arall yn parhau fel llysgenhadon ôl-raddedig am flwyddyn arall. O Wrecsam y daw **Megan Kendall**, sy'n dilyn cwrs EngD mewn Peirianneg Deunyddiau a Gweithgynhyrchu, a chyn-ddisgybl o Ysgol Gymraeg Ystalyfera yw **Emily Louise Evans**, sy'n dilyn cwrs PhD Cymraeg.

## Gwobr am hybu'r Gymraeg mewn Daearyddiaeth

Mae ymroddiad uwch-ddarlithydd Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe wrth ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn ei phwnc wedi cael ei gydnabod gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Dr Rhian Hedd Meara oedd enillydd Gwobr Goffa Eilir Hedd Morgan mewn derbyniad blynyddol y Coleg ar faes Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd y llynedd.

Cyflwynir y Wobr Goffa i ysgolhaig o 40 mlwydd oed neu iau i gydnabod blaengarwch ymchwil yn y gwyddorau, a hefyd cyfraniad i addysgu'r gwyddorau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliad addysg uwch.

Roedd Dr Eilir Hedd Morgan yn wyddonydd ifanc, disglair a galluog a fu farw yn 29 oed. Roedd hefyd yn addysgwr greddfol oedd yn hynod boblogaidd, a sefydlwyd y Wobr gan ei rieni Iwan ac Alwena er cof amdano.

Mae Dr Meara yn Uwch-ddarlithydd Daearyddiaeth Ffisegol a Daeareg yn Adran Ddaearyddiaeth Prifysgol Abertawe ac yn Arweinydd y Gymraeg yng Nghyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg y Brifysgol.



"Mae'n fraint cael derbyn y Wobr hon gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sefydliad sydd wedi rhoi cymaint o gefnogaeth a chyfleoedd i mi yn ystod y naw mlynedd dw i wedi bod yn dysgu yn Abertawe," meddai. "Mae'n bleser cael dysgu cymaint o fyfyrwyr sy'n frwdfrydig dros astudio daearyddiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, a braint yw cael chwarae rhan yn narpariaeth cyfrwng Cymraeg y pwnc o fewn y sector addysg uwch."

## Gwobrau'r CCC 2024

Mae myfyrwraig o Abertawe wedi cael ei hanrhydeddu am ei gwaith arbennig yn datblygu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig ddefnyddio eu Cymraeg.

Priya Dodiya, myfyrwraig Seicoleg ym Mhrifysgol Abertawe oedd enillydd Gwobr Merêd sy'n cydnabod cyfraniad myfyriwr i fywyd a diwylliant Cymraeg yn y brifysgol.

"Mae'r wobr hon yn golygu gymaint i mi oherwydd fel siaradwraig Cymraeg o dras Indiaidd, rwyf wedi wynebu gwahaniaethu o fewn y gymuned," meddai. "Ond, trwy fy ymdrechion yn hyrwyddo'r iaith o fewn cymunedau amrywiol, rwy'n gobeithio creu amgylchedd mwy cynhwysol i bawb."





Un arall o Brifysgol Abertawe sydd wedi'i gwobrwyo yw'r Dr Alwena Morgan, uwch-ddarlithydd mewn Biofeddygaeth, ac Arweinydd y Gymraeg yng Nghyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd y Brifysgol.

Hi oedd enillydd Gwobr Adnodd Cyfrwng Cymraeg Rhagorol, yn sgil ei gwaith yn creu Cwrs Biocemeg Cymraeg. Dyma'r cwrs gwyddorau ar-lein *Massive Open Online Courses* (MOOC) cyntaf o'i fath yn y Gymraeg ac mae'n ffrwyth llafur blynyddoedd lawer.

Mae'r cwrs biocemeg wedi'i anelu at ddisgyblion 16-18 oed sy'n astudio Bioleg a/ neu Cemeg Safon Uwch/ Uwch Gyfrannol, ond mae'n agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn Biocemeg. Gall athrawon ei ddefnyddio fel adnodd i gyfoethogi dysgu manyleb Bioleg a Chemeg CBAC.

"Mae'r wobr yma yn golygu llawer i mi a gwybod bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn teimlo bod y gwaith yn deilwng o'r wobr," meddai Alwena. "Yn y dyfodol rwy'n gobeithio parhau i gefnogi addysgu a dysgu'r gwyddorau yn Gymraeg, a pharhau i gefnogi datblygiad termau gwyddonol cyfrwng Cymraeg ar y Porth Termau."

# Hwyl yr Eisteddfod Ryng-Golegol



Croesawodd Brifysgol Abertawe gannoedd o fyfyrwyr Cymraeg i gymryd rhan yn Eisteddfod Ryng-golegol 2024 ddechrau mis Mawrth eleni.

Mae'r digwyddiad yn un o uchafbwyntiau cymdeithasol a chystadleuol calendr myfyrwyr prifysgolion Cymru, ac eleni oedd y tro cyntaf iddi ymweld ag Abertawe ers 2019.

Dechreuodd y cystadlu ddydd Gwener 1 Mawrth gyda'r Twrnamaint Chwaraeon a welodd Prifysgolion Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth a Bangor i gyd yn cymryd rhan gyda'u timoedd rygbi, pêl-droed a phêl-rwyd amrywiol. Wedi prynhawn o gystadlu brwd yn erbyn yr ymwelwyr, Prifysgol Abertawe oedd pencampwyr y Twrnamaint.

Drannoeth, ddydd Sadwrn, cynhaliwyd yr Eisteddfod Lwyfan yn y Neuadd Fawr ar Gampws y Bae gyda'r digrifwr o Gwm Tawe, Noel James, ac un o gyn-fyfyrwyr y Brifysgol a wyneb cyfarwydd ar y cyfryngau, Tom Kemp, yn llywio'r digwyddiad. O'r cychwyn cyntaf, roedd naws arbennig i'r diwrnod gyda'r hwyl a'r cystadlu brwd yn para tan y gystadleuaeth olaf un. Dyfarnwyd tlysau amrywiol yn ystod yr Eisteddfod gyda Thlws y Cerddor yn mynd i Celt John o Brifysgol Bangor, Medal y Dysgwyr i Ieuan Jacka o Brifysgol Abertawe, Y Fedal Gelf i Nia Williams o Brifysgol Aberystwyth, Y Fedal Wyddoniaeth i Fflur Edwards o Brifysgol Aberystwyth a'r Fedal Ddrama i Kirsty Lewis o Brifysgol Bangor. Enillydd y Goron eleni oedd Rebecca Rees o Brifysgol Aberystwyth ac aeth y Gadair i Nanw Maelor, hefyd o Brifysgol Aberystwyth











Yn ddiweddglo cyffrous i'r noson, Aberystwyth a gipiodd darian y coleg buddugol o drwch blewyn.

I gloi'r penwythnos, cynhaliwyd gig gyda dau o fandiau mwyaf poblogaidd y sîn gerddoriaeth Gymraeg, sef Mellt a Gwilym, ac un arall o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe, y cynhyrchydd electronig Gwyn Rennolf aka FRMAND, yn dychwelyd i gloi'r noson gyda cherddoriaeth ddawns.

## Swyddog Materion Cymraeg Newydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe

Ers rhai blynyddoedd bellach, mae gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe swyddog llawn-amser sydd â chyfrifoldeb penodol dros fuddiannau myfyrwyr Cymraeg.

Carys Dukes yw Swyddog Materion Cymraeg yr Undeb am y flwyddyn nesaf, ar ôl cael ei hethol gan ei chyd-fyfyrwyr yn gynharach eleni. Hi sy'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod yr iaith a'r diwylliant Cymraeg yn ffynnu ymysg myfyrwyr y Brifysgol.

Mae'n cychwyn ar ei swydd ar ôl treulio tair blynedd fel myfyrwraig yn Abertawe yn astudio ar gyfer ei gradd BA Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Cyfryngau.



Fel un a fu'n aelod gweithgar o Gymdeithas Gymraeg y myfyrwyr dros y cyfnod hwnnw, dywed ei bod yn edrych ymlaen yn llawn uchelgais at her ei swydd newydd.

"Dw i'n sicr y bydd hi'n flwyddyn fythgofiadwy – yn bersonol ac yn broffesiynol," meddai.

"Dw i'n benderfynol o godi ymwybyddiaeth o'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn y Brifysgol a hefyd yn ninas Abertawe yn gyffredinol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau'r profiadau gorau posibl i fyfyrwyr Cymraeg ac unigolion eraill sydd â diddordeb yn ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith.

"Dw i hefyd yn gweld y swydd fel cyfle i gyfrannu at weithgarwch Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, mewn unrhyw ffordd y medraf, gam wrth gam, mawr neu fach."

Ymysg ei phrif ddiddordebau mae gwylio pêl-droed merched, ac yn ystod ei blwyddyn olaf fel myfyriwr treuliodd interniaeth cyfryngau gyda chlwb pêl-droed y Brifysgol.

A hithau'n dod o dref lan-môr hyfryd Cricieth yng Ngwynedd, nid yw'n syndod ei bod wrth ei bodd yn treulio amser ar lan y môr hefyd.

"Mi fyddwch yn sicr o'm ffeindio fi wrth lan y môr, pryd bynnag y bydd hi'n braf - boed hynny yn Abertawe neu Gricieth!" meddai.